*These notes refer to the Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 (c.1) which received Royal Assent on 27 Ionawr 2014*

# DDEDDF ADDYSG BELLACH AC UWCH (LLYWODRAETHU A GWYBODAETH) (CYMRU) 2014

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH ARYR ADRANNAU A'R ATODLENNI

***Adran 2 – Offeryn ac erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg bellach***

9. Mae'r adran hon yn diwygio adran 20 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i offerynnau ac erthyglau llywodraethu CABau gydymffurfio â gofynion penodedig. Mae'n cyflwyno Atodlen 1 (sy'n disodli Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992) i wneud darpariaeth newydd, sy'n llai rhagnodol, ynghylch cynnwys offerynnau ac erthyglau llywodraethu CABau yng Nghymru.

10. Mae'r adran hefyd yn cyflwyno adran newydd yn lle'r adran 22 a 22ZA gyfredol o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Effaith hyn yw dileu p#er Gweinidogion Cymru i addasu, dirymu neu ddisodli offerynnau ac erthyglau llywodraethu CABau yng Nghymru a rhoi'r p#er i CABau yng Nghymru addasu neu ddisodli eu hofferynnau a'u herthyglau llywodraethu.